sportwales
chwaraeoncymru

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORT WALES

Chwaraeon Cymru

A

Chwaraeon

Dogfen Gwahoddiad i Dendro

Tachwedd 2026

Gwahoddiad i Dendro ar gyfer darparu gwaith arweiniol ar y cyd rhwng Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru ar ddiogelu para-chwaraeon perfformiad ar gyfer y dyfodol yng Nghymru

Cynnwys

1. Cefndir 3

2. Trosolwg o'r Gofyniad 6

3. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen 7

4. Gofynion Gweithdrefnol ac Ymateb 8

5. Derbyn Tendrau 8

6. Addasu'r Caffael 9

7. Amodau'r Tendr 10

8. Treuliau a Cholledion Wrth Dendro 10

9. Prisiau 11

10. Telerau Talu 11

11. Cyfrinachedd 11

12. Diogelwch 12

13. Yr Iaith Gymraeg 12

14. Manyleb 12

Cyflwyniad 12

Safonau 14

Cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru 14

Cadw Cofnodion ac Adrodd 15

Llywodraethu 15

Hyd y Contract 15

15. Y Broses Asesu 15

Trosolwg o Broses Asesu'r Gwahoddiad i Dendro 15

Asesiad Ansawdd a Masnachol 15

Asesiad Ansawdd 16

Asesiad Masnachol 16

Meini Prawf Dyfarnu 17

Dyfarnu 18

16. Cyfarwyddyd Pellach 18

17. Diffyg Cydymffurfio 19

18. Sefyllfa Ariannol ac Adnoddau 19
19. Rhestr Wirio o Ddogfennau Ymateb i'w dychwelyd 20

1. Cefndir

Chwaraeon Cymru

1.1 Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, sef Chwaraeon Cymru) drwy Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972. Mae'n cael ei ariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac o incwm sy'n cael ei gynhyrchu o'i weithgareddau ei hun. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu arian Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

1.2 Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu symiau sylweddol o gyllid grant ar draws portffolio eang o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru.

1.3 Mae Chwaraeon Cymru yn un o'r cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* Llywodraeth Cymru. Yn unol â hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ei nodau llesiant ei hun. Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio'r sefydliadau hyn i asesu i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio y mae'r Ddeddf yn eu hyrwyddo wedi cael eu cyflawni.

1.4 Ein nod ni yw nid yn unig gwella lefel y cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein hathletwyr uchelgeisiol ni i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

1.5 Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dros bedwar lleoliad yng Nghymru; mae'r safleoedd yn cynnwys ein dwy Ganolfan Genedlaethol, yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a Phlas Menai, Caernarfon (mewn partneriaeth â Parkwood a Legacy Leisure); a swyddfeydd lloeren ar Lannau Dyfrdwy ac yn Llanelli.

1.6 Am ragor o wybodaeth a chyd-destun, ewch i wefan Chwaraeon Cymru yn https://www.chwaraeon.cymru/.

Chwaraeon Anabledd Cymru

1.7 Mae Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FfChAC) (yr enw gweithredu yw Chwaraeon Anabledd Cymru (ChAC)) yn asiantaeth Chwaraeon Genedlaethol holl anabledd sy'n darparu ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol cynhwysol (gan gynnwys chwaraeon) i bobl anabl yng Nghymru. Mae'n Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (rhif: 05199508) ac yn Elusen gofrestredig (rhif: 1144663).

1.8 Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi darparu cefnogaeth ac wedi bod yn gyfrifol am ddarparu chwaraeon anabledd a chwaraeon i bobl anabl ledled Cymru ers dros 25 mlynedd, yn 'Gymunedol' (lefel gyfranogol) mae hyn yn cynnwys: buddsoddiad mewn rhanbarthau / awdurdodau lleol, rhaglen addysg a hyfforddiant (gan gynnwys Chwarae Gyda'n Gilydd) a rhaglen i gefnogi partneriaid i gyflawni newid diwylliannol cynhwysol (insport). Ariennir hyn drwy'r Loteri Gymunedol, grantiau a rhywfaint o fuddsoddiad trysorlys gan Chwaraeon Cymru.

1.9 Mae ChAC hefyd yn rheoli rhaglen llwybr perfformiad sydd â'r bwriad o gysylltu'r ddarpariaeth gymunedol â llwybrau perfformiad ar lefel y CRhC a drwodd i'r ddarpariaeth Gemau Para-Gymanwlad a Pharalympaidd. Mae hyn yn cael ei ariannu drwy Loteri Perfformiad a rhywfaint o fuddsoddiad trysorlys gan Chwaraeon Cymru.

1.10 Rydym hefyd yn gweithio gydag un partner corfforaethol (adeg ysgrifennu'r ddogfen hon) sy'n cefnogi darparu ein Digwyddiadau Cyfres insport. Dyma ddigwyddiadau sy'n dod â Chlybiau insport at ei gilydd mewn un lleoliad i roi cyfle i bobl anabl a'u rhwydweithiau roi cynnig ar amrywiaeth o chwaraeon ac wedyn parhau â hwy ar ôl y digwyddiad oherwydd bod ganddynt y cysylltiad â'r clwb.

1.11 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cwmni a'i weithgareddau yn: www.disabilitysportwales.com

1.12 Mae ChAC wedi ymrwymo i Weledigaeth y Sector ar gyfer Chwaraeon (mae rhagor o wybodaeth ar gael isod): Cenedl actif lle gall pawb fwynhau Chwaraeon am oes.

1.13 Ein Cenhadaeth yw: dylanwadu, cynnwys, ysbrydoli, insport a'n Gwerthoedd yw:

Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n ein gweld yn gwneud y canlynol:

Hyrwyddo pawb

Rydym yn credu mewn cyfle amrywiol ac ystyrlon gyda phobl wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Balch o'n Cymreictod

Rydym yn ymgorffori ac yn dathlu beth yw bod yn Gymry.

Twf gwerth

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygiad a newid cynhwysol a byddwn bob amser yn cefnogi hynny.

Amlygu posibiliadau

Rydym yn cysylltu cyfleoedd ac yn blaenoriaethu partneriaethau, fel bod pobl yn cael yr hyn sydd arnynt ei angen.

- Eiriol dros gymunedau amrywiol a bod yn gyfaill ochr yn ochr â hwy
- Tynnu sylw at ymddygiad a gweithredu anghyfartal
- Gwrando ar yr hyn sydd arnoch ei angen ac ymateb iddo
- Defnyddio, dysgu a dathlu'r iaith Gymraeg
- Cadw gwasanaethau yn lleol ac yn ddibynadwy
- Eich croesawu chi i bopeth rydym yn ei wneud
- Adlewyrchu ar waith a newid er gwell
- Dysgu gennych chi ac eraill
- Cyfrannu a dod â rhywbeth at y bwrdd
- Rhoi pobl a'r hyn y gallant ei wneud yn gyntaf
- Eich cysylltu chi â chyfleoedd, datrysiadau a phobl sy'n gallu gwneud i bethau ddigwydd
- Bod yn chwilfrydig ynghylch gwneud pethau'n well

1.14 Ein pwrpas ni fel sefydliad yw sicrhau bod pobl anabl yr un mor debygol o gael mwynhad gydol oes o weithgarwch corfforol (gan gynnwys chwaraeon) â phobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn golygu bod gan bob person anabl ddewis gwirioneddol o fewn y llwybr; pa bynnag weithgaredd neu chwaraeon maent yn eu hoffi, wedi'u darparu'n lleol, wedi'u cyfathrebu'n glir, a chynnig mynediad da at hyfforddiant (os dymunir).

1.15 Mae'r diffiniadau o anabledd yn amrywiol iawn, ac yn ChAC rydym yn gweithio ar dair lefel:
a. Cydweithredu â phartneriaid i ddarparu cyfleoedd cynhwysol y gall pawb sydd wedi'i nodi neu sy'n uniaethu fel 'anabl' o dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 eu cael
b. Darparu a dylanwadu ar ddarparu cyfleoedd datblygu perfformiad (heb eu hariannu gan berfformiad) gan gysylltu â llwybrau a ddarperir gan sefydliadau eraill a all arwain at:
i. Gemau Olympaidd y Byddar (www.Deaflympics.com)

ii. Gemau Byd-eang Virtus (https://www.virtus.sport/)
iii. neu Gemau Olympaidd Arbennig y Byd (https://www.specialolympics.org/)
c. Gweithio'n uniongyrchol gyda phartneriaid sy'n darparu rhaglenni Paralympaidd (www.paralympic.org) a Phara-Gymanwlad (https://www.commonwealthsport.com/about) a ariennir gan berfformiad.

1.16 Mae rhagor o wybodaeth ar gael am ein Strategaeth yma: https://chwaraeonanableddcymru.com/en-gb/about/our-strategy

1.17 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gonglfeini arferion gwaith ChAC ac, o'r herwydd, rydym yn edrych ar y rhain fel ymddygiadau ac arferion pwysig gyda sefydliadau partner.

Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

1.18 Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn ymateb i anghenion yr unigolyn ar wahanol gamau yn ei fywyd ac yn canolbwyntio ar greu ystod eang o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru actif, iach a llwyddiannus, lle gall pob dinesydd o bob cymuned gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gorfforol a chyrraedd eu potensial, dim ots beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn rhoi nod cyffredin i ni, y sector, a phartneriaid y sector y gallwn ni i gyd uno o'i gwmpas. Am ragor o wybodaeth am y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon, edrychwch ar y ddolen ganlynol: https://www.sport.wales/our-vision-for-sport/

2. Trosolwg o'r Gofyniad

2.1 Mae Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru yn comisiynu darn o waith ar y cyd i 'ddiogelu dyfodol' para-chwaraeon perfformiad yng Nghymru. Y nod yw nodi'r newidiadau system sydd eu hangen dros y 12 i 16 mlynedd nesaf i sicrhau bod amgylcheddau chwaraeon perfformiad yn gynhwysol i gymunedau croestoriadol o bobl anabl.

2.2 Bydd y gwaith hwn yn cyflawni'r canlynol:

• Diffinio paramedrau presennol para-chwaraeon perfformiad yng Nghymru ac asesu aeddfedrwydd amgylcheddau perfformiad para ar draws Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) Cymru, darpariaeth dan arweiniad ChAC (swyddogaeth a chyflenwi rhaglenni CRhC), a digwyddiadau datblygu perfformiad sydd ar hyn o bryd y tu allan i gwmpas cyllid perfformiad UK Sport a Chwaraeon Cymru.

• Rhagweld trywydd gofynion o ran adnoddau i gynnal a thyfu para-chwaraeon perfformiad.

• Gwneud argymhellion i gefnogi'r trawsnewid a / neu gadw cyfrifoldeb am lwybrau perfformiad para o ChAC i CRhC, gan sicrhau cynaliadwyedd a chynhwysiant hirdymor.

2.3 Gallai'r prosiect fod yn un cyflwyniad sengl neu gael ei rannu'n dair adran ar wahân. Disgwylir i'r tendrwr llwyddiannus gwblhau unrhyw un, neu bob un, o adrannau un, dau neu dri, yn seiliedig ar eu lefel o arbenigedd a chapasiti. Byddai'r allbynnau ar draws pob adran fel a ganlyn:

Adran 1 - Cynnal adolygiad cynhwysfawr o adnoddau, modelau cyflawni ac amgylcheddau perfformio cyfredol yng Nghymru, gan feincnodi Cymru yn erbyn gwledydd eraill sy'n arwain y byd mewn para-chwaraeon. Nodi a diffinio paramedrau cyfredol chwaraeon perfformiad para yng Nghymru ac asesu aeddfedrwydd yr holl amgylcheddau perfformiad para.

Adran 2 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws sector chwaraeon Cymru. Archwilio a dadansoddi sut mae para-athletwyr yng Nghymru yn cael eu hadnabod, eu datblygu a'u cefnogi a phwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn.

Adran 3 - Datblygu cynllun gweithredu manwl gydag argymhellion ymarferol (tymor byr, canolig a hir). Gwneud argymhellion sy'n rhagweld trywydd y gofynion o ran adnoddau dros y 12 i 16 mlynedd nesaf a bydd yn parhau i sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru yn cynhyrchu athletwyr perfformiad para o safon byd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a gofyniad manwl ar gyfer y gwaith hwn yn adran 14.

2.4 Hyd y contract arfaethedig yw 18 mis, gyda rhandaliadau'n cael eu talu'n gysylltiedig â cherrig milltir ac adrannau'r prosiect y cytunwyd arnynt gyda Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru.

2.5 Y gwerth a amcangyfrifir ar gyfer cyfanswm y contract yw (hyd at) £50,000 (heb gynnwys TAW) dros y tymor posibl llawn (3 adran). Mae'r manylion fel a ganlyn:

Adran 1 - £10,000
Adran 2 - £20,000
Adran 3 - £20,000

Mae Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru wedi cyhoeddi'r tendr hwn ar gyfer y gwaith cyfan. Gall tendrwyr llwyddiannus gael eu penodi ar gyfer yr holl adrannau y gwnaethant gais ar eu cyfer, neu ar gyfer rhai ohonynt yn unig. Os bydd tendrwyr yn cael eu penodi ar gyfer un neu ddwy adran yn unig, a thendrwr llwyddiannus arall yn ennill yr adran(nau) sy'n weddill, rhoddir cyfle i'r holl bartïon llwyddiannus gyfarfod a thrafod trefniadau gwaith a materion ymarferol y prosiect, er mwyn sicrhau bod pob parti'n gallu cwblhau'r gwaith.

3 Cyflwyno Ymatebion / Amserlen

3.1 Nodir yr amserlen gaffael arfaethedig isod. Sylwch mai dangosol yn unig yw'r dyddiadau a ddarperir. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghorydd neu'r consortiwm mwyaf addas yn cael ei benodi i arwain y prosiect (neu'r prosiectau), rydym yn fodlon

ystyried hyblygrwydd rhesymol o ran y dyddiadau dechrau a chwblhau arfaethedig, yn ogystal â'r amserlenni dros dro, ar yr amod bod cyfiawnhad digonol yn cael ei ddarparu yng nghyflwyniad y tendr. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dyddiadau a nodir isod yng nghyflwyniad y tendr, ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

Gweithgaredd	**Dyddiad**	**Cyfrifol**
Cyhoeddi'r Gwahoddiad i Dendro	17eg Tachwedd 2026	Chwaraeon Cymru
Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Cwestiynau Eglurhad	Dydd Iau 7fed Ionawr 2027	Tendrwr
Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Ymatebion	12fed Ionawr 2027 (4pm)	Tendrwr
Gwerthuso (gan gynnwys pob cymeradwyaeth fewnol)	19eg Ionawr 2027	Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru
Anfon gwahoddiadau i gyfweliad	20eg Ionawr 2027	Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru
Cynnal cyfweliadau ar gyfer egluro ymatebion ysgrifenedig yn unig	26/27fed Ionawr 2027	Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru
Dyfarnu'r Contract	Chwefror 2027	Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru
Contract yn Dechrau	2il Mawrth 2027	Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru a'r Tendrwr

3.2 Rhaid cyflwyno cyflwyniadau'r tendr ar ffurf electronig i'r cyfleuster Blwch Post ar gwerthwchigymru.gov.uk erbyn 4pm ar Ddydd Mawrth 12fed Ionawr 2027. Efallai na fydd yr ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

3.3 Mae canllaw defnyddiwr Blwch Post Cyflenwyr ar gael o dan yr adran 'Help a Chefnogaeth' ar wefan GwerthwchiGymru.

3.4 Os bydd tendrwyr yn dod ar draws unrhyw broblemau wrth gyflwyno cwestiynau eglurhad, defnyddiwch swyddogaeth cefnogi GwerthwchiGymru.

3.5 Dylid cyflwyno cwestiynau eglurhad (ymholiadau) mewn perthynas â'r tendr drwy swyddogaeth cwestiynau ac atebion GwerthwchiGymru. Ni ellir ymateb i gwestiynau eglurhad a dderbynnir y tu allan i GwerthwchiGymru (e.e. ar e-bost).

3.6 Gellir derbyn ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd ymatebion a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Cynhelir yr holl ohebiaeth / cyfathrebu dilynol yn unol ag iaith yr ymateb a gyflwynwyd.

4 Gofynion Gweithdrefnol ac Ymateb

4.1 Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon, ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill y tendr a ddarperir i dendrwyr mewn cysylltiad â'r caffael hwn, yn cynnwys gofynion gweithdrefnol ac ymateb y mae'n rhaid i dendrwyr eu dilyn.

4.2 Gall methu â chadw at neu gydymffurfio ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol neu ymateb arwain at eithrio'r tendrwr o'r caffael a gwneud ei ymateb yn annilys, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru.

5 Derbyn Tendrau

5.1 Bydd Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru yn adolygu pob tendr a dderbynnir drwy flwch post GwerthwchiGymru. Sylwch, fodd bynnag, na fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

5.2 Ac eithrio gwall amlwg, neu fel y cytunir yn benodol fel arall gan Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru a'r tendrwr, ystyrir bod cynnwys ymatebion tendr a gyflwynir mewn perthynas â'r caffael hwn yn rhwymol i'r tendrwr ac yn agored i'w dderbyn gan Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru.

5.3 Cyn cyflwyno eu hymateb, mae tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, a staff unrhyw is-gontractwyr, yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion technegol, masnachol a chyfreithiol sy'n ymwneud â'r caffael hwn.

5.4 Dylai tendr fod yn ddilys i'w dderbyn am gyfnod o 120 diwrnod o leiaf o ddyddiad ei gyflwyno.

5.5 Nid yw Chwaraeon Cymru na Chwaraeon Anabledd Cymru yn ymrwymo i dderbyn y tendr pris isaf nac unrhyw gyflwyniad tendr a dderbynnir mewn ymateb i'r caffael hwn. Ni ystyrir bod unrhyw gyflwyniad wedi'i dderbyn oni bai fod derbyn o'r fath wedi'i hysbysu i'r tendrwr yn ysgrifenedig.

5.6 Ni fydd unrhyw ran o ymateb y tendr a gyflwynwyd yn cael ei dychwelyd i'r tendrwr.

6 Addasu'r Caffael

6.1 Ni ddylid ystyried y ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon, unrhyw hysbysiad tendr cyfatebol nac unrhyw wybodaeth ychwanegol a roddir fel rhan o'r caffael hwn fel ymrwymiad nac fel cynrychiolaeth ar ran Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru (neu unrhyw berson arall) i ymrwymo i drefniant cytundebol.

6.2 Mae Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru ar y cyd yn cadw'r hawl i derfynu neu ganslo fel arall y caffael hwn ar unrhyw adeg yn ystod y broses, a / neu i beidio â dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r caffael hwn. O ran lotiau, nid yw unrhyw benderfyniad gan Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru i beidio

â dyfarnu lot yn atal Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru rhag dyfarnu'r lotiau sy'n weddill.

6.3 O ran terfynu neu ganslo'r caffael fel arall a / neu beidio â dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r caffael hwn; ni fydd Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn atebol am unrhyw gostau a achosir gan y tendrwr o ganlyniad i'r gweithredu hwn.

6.4 Mae Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg i wneud y canlynol:

- Cyhoeddi diwygiadau, addasiadau neu wybodaeth ychwanegol i unrhyw ddogfennaeth sy'n rhan o'r caffael hwn, gan gynnwys y fanyleb.
- Gofyn i dendrwr egluro unrhyw ran o'i ymateb a'i gyflwyniad tendr yn ysgrifenedig a / neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Gall methu ar ran tendrwr i ymateb yn unol â'r cyfarwyddiadau arwain at wneud ei gyflwyniad tendr yn annilys.
- Newid yr amserlen gaffael ar gyfer y caffael hwn.
- Ailgynnal unrhyw ran o'r caffael ar yr un sail neu sail amgen.
- Diwygio'r caffael fel arall fel y disgrifir yma.

6.5 Mae'r Fanyleb (Rhan 14) yn nodi'r gofynion yn llawn. Mae'n bosibl, yn ystod oes unrhyw gytundeb a weithredir, y bydd newidiadau i'r fanyleb, y gwasanaeth neu ofynion eraill yn codi.

6.6 Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu gweithredu drwy gyhoeddi diwygiadau ysgrifenedig i bawb yr effeithir arnynt gan y newidiadau. Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru sydd â'r hawl unigryw i weithredu newidiadau yn y modd hwn.

7 Amodau'r Tendr

7.1 Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod ac yn cytuno'n llawn i'r amodau canlynol:

7.2 Mae cynnwys a gofynion y dogfennau tendro wedi cael eu darllen, eu deall a, lle bo angen, cydymffurfiwyd â hwy.

7.3 Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw'r prisiau a / neu'r symiau a nodir yma wedi'u haddasu ac ni fu unrhyw ddylanwad annheg arnynt oherwydd unrhyw drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw drydydd parti.

7.4 Nid ydych, ac ni fyddwch, cyn dyfarnu unrhyw gontract, yn cyfathrebu ag eraill ac eithrio Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru ynghylch y swm a dendrwyd neu fanylion penodol y swm, ac eithrio pan fo angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi eich cais.

7.5 Nid ydych ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw drefniant neu gytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a gyflwynir gan eraill.

7.6 Nid ydych ac ni fyddwch yn cynnig unrhyw gymhelliant, yn ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu drydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono.

7.7 Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru yn unol â'r gofynion yn y Gwahoddiad i Dendro hwn ac ar gyfer y costau a'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn eich ymateb tendro.

7.8 Mae unrhyw a phob mater, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu'n gytundebol, lle nad yw eich ymateb i'r tendr yn cydymffurfio, naill ai'n llawn neu'n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi'u diffinio'n glir mewn dogfen o dan y pennawd 'Cymwysterau Tendro' a'i chyflwyno fel rhan o'ch ymateb tendro.

8 Treuliau a Cholledion wrth Dendro

8.1 Rhaid i dendrwyr ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac unrhyw gostau pellach a achosir cyn dyfarnu'r contract.

8.2 Ni fydd Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn gyfrifol am dreuliau na cholledion a all gael eu hachosi gan unrhyw dendrwr wrth baratoi a chyflwyno ei ymateb i'r tendr ac fel arall wrth iddo gymryd rhan yn y broses gaffael, heb ystyried y dull o gynnal neu ganlyniad y caffael.

9 Prisiau

9.1 Ystyrir bod y prisiau a nodir yn ymateb y tendr yn werth llawn cynhwysol ar gyfer darparu'r gofyniad fel y'i disgrifir yn y Fanyleb (Rhan 14), gan gynnwys yr holl gostau a threuliau, y risgiau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro neu a awgrymir ynddo.

9.2 Rhaid nodi'r holl brisiau mewn punnoedd sterling (£) heb gynnwys Treth Ar Werth (TAW).

10 Telerau Talu

10.1 Yn unol â Deddf Caffael 2023, gwneir taliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys, gan ddyfynnu Gorchymyn Prynu dilys, gydag anfonebau i'w cyflwyno yn unol â'r taliad a drefnwyd a gytunwyd cyn neu ar adeg dyfarnu'r contract.

10.2 Er mwyn i anfoneb gael ei hystyried yn ddilys ac yn dderbyniol i'w thalu, rhaid ei hanfon yn electronig (h.y. ar e-bost) a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Enw'r cyflenwr.
- Rhif archeb brynu (lle mae ar gael / yn hysbys).

- Disgrifiad o'r nwyddau, y gwasanaethau a / neu'r gwaith a gyflenwir i Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru.
- Y swm y gofynnir amdano.
- Cyfeirnod / rhif anfoneb unigryw.

10.3 Rhaid cyflwyno pob anfoneb i finance@sport.wales

10.4 Os ystyrir bod anfoneb yn annilys a / neu os oes anghydfod ynghylch y swm sy'n daladwy, hysbysir y cyflenwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd y telerau talu 30 diwrnod yn cael eu gohirio nes bod yr holl ymholiadau wedi'u datrys.

11 Cyfrinachedd

11.1 Bydd y tendrwr (os yw ei gyflwyniad yn cael ei dderbyn ai peidio) a phob derbynnydd arall ar y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (os yw'n cyflwyno ymateb tendr ai peidio) yn trin manylion y ddogfen hon yn breifat ac yn gyfrinachol.

11.2 Bydd unrhyw gyflwyniad a dderbynnir mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn cael ei drin yn yr un modd gan Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru, oni bai ei fod yn derbyn cais yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

12 Diogelwch

12.1 Rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus gadw at rwymedigaethau "Prosesydd Data" fel y'u nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ac Erthygl 28 GDPR 679/2016 yr UE. Yn unol â Phennod 2 Deddf Diogelu Data 2018, mae'r Cyflenwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata personol a brosesir wrth ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu waith o dan y cytundeb hwn yn cael eu trin yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod IV.

13 Yr Iaith Gymraeg

13.1 Fel corff sector cyhoeddus, mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru.

13.2 Bydd angen i'r cyflenwyr llwyddiannus sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir drwy'r contract hwn yn cydymffurfio ag anghenion iaith Gymraeg a chynhwysiant Chwaraeon Cymru.

13.3 Dyma'r gofynion iaith Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r caffael hwn: i'w trafod wrth ddyfarnu'r contract.

13.4 Cyfeirir ymhellach at ofynion dwyieithog Chwaraeon Cymru yn Rhan 14 (Manyleb) isod.

13.5 Am fanylion pellach ynghylch gofynion a chyfrifoldebau'r iaith Gymraeg, edrychwch ar: https://www.llyw.cymru/y-gymraeg

14 Manyleb

Cyflwyniad

14.1 Prif amcan y darn hwn o waith a gomisiynir yw nodi a mynd i'r afael â meysydd allweddol a fydd yn diogelu para-chwaraeon ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd i athletwyr anabl wneud cynnydd i ddigwyddiadau lefel Paralympaidd a Phara-Gymanwlad.

14.2 Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi darparu insport CRhC ers 14 o flynyddoedd, ac mae wedi creu rhywfaint o newid diwylliannol cynhwysol cadarn. Ar yr un pryd eto, dyhead Chwaraeon Anabledd Cymru yw bod ei 'angen yn wahanol' gan y sector. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai rôl pawb yw cynnwys cymunedau croestoriadol o bobl anabl, nid rôl un sefydliad yn unig. Mewn chwaraeon perfformiad, pan fydd pob CRhC, Chwaraeon Anabledd Cymru a Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at ddarparu llwybr perfformiad cynhwysol, bydd swyddogaeth Chwaraeon Anabledd Cymru yn y gofod hwn yn newid, yn lleihau neu'n diflannu.

14.3 Mae dulliau ariannu Chwaraeon Cymru wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf gydag esblygiad model(au) ariannu newydd, sy'n anelu at wneud y system chwaraeon yn fwy cyfartal. Er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn y byd chwaraeon yng Nghymru yn darparu llwybrau perfformiad cadarn, iach a chynhwysol, gyda'r lefel gywir o gefnogaeth i'r dyfodol, mae angen nodi anghenion y sector wrth wireddu hyn, a'r rôl arweinyddiaeth y gall y sefydliadau priodol (ChAC a Chwaraeon Cymru) ei chwarae.

Ar hyn o bryd, defnyddir cyllid perfformiad i Chwaraeon Anabledd Cymru yn y prif ffyrdd canlynol:

- Ar gyfer Dyfarniadau Datblygu Athletwyr.
- Ar gyfer darparu Dyddiau Ysbrydoliaeth Llwybrau Perfformiad – ar y cyd â phartneriaid eraill.
- Ar gyfer darparu cyfleoedd datblygu a chystadleuol mewn chwaraeon Paralympaidd a / neu bara-Gymanwlad nad ydynt yn cael eu darparu gan gorff rheoli yng Nghymru. (Mae hyn yn cynnwys Boccia, Pêl Fasged Cadair Olwyn, Rygbi Cadair Olwyn, Pêl Gôl, Taekwondo, Marchogaeth, a Bowls).

14.4 Amlinellu'r newid system sydd ei angen dros y 12 i 16 mlynedd nesaf er mwyn i amgylcheddau chwaraeon perfformiad fod yn gynhwysol i anghenion unigolion, ar draws y sector chwaraeon. I wneud hyn, bydd cwmpas y prosiect yn cael ei rannu'n dri cham:

Adran 1 – cost dyfarniad £10,000
Nodi a diffinio paramedrau presennol para-chwaraeon perfformiad yng Nghymru ac asesu aeddfedrwydd yr holl amgylcheddau perfformiad para.

Meysydd i'w harchwilio:

- Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ac a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer para-chwaraeon perfformiad yng Nghymru.
- Amlinellu'r meysydd lle mae adnoddau'n (tu hwnt i fuddsoddiad yn unig) yn cael eu canolbwyntio ar hyn o bryd a pham.
- Archwilio effeithiau cyflawni a ffocws, yn seiliedig ar y cyllid a'r adnoddau dros y blynyddoedd diwethaf
- Archwilio'r risgiau / cyfleoedd o'r paramedrau ariannu ar gyfer y 4, 12 ac 16 mlynedd nesaf.

Tybiaethau:

- Tybir y canlynol:
  - bydd hwn yn waith a wneir wrth ddesg, heb ymgynghori'n sylweddol â sefydliadau y tu allan i ChAC neu Chwaraeon Cymru.
  - bydd gan y tendrwr llwyddiannus y canlynol:
    - Dealltwriaeth dda o systemau, strwythurau a chyfleoedd perfformiad yng Nghymru.
    - Parodrwydd i bontio Adran 1 i Adran 2 ar y cyd ag ymgynghorydd / cwmni ymgynghori arall (os nad ef yw'r tendrwr llwyddiannus ar gyfer Adran 2 neu os na wnaeth dendro ar gyfer Adran 2).

Adran 2 – cost dyfarniad £20,000

Archwilio dadansoddiad o sut mae para-athletwyr yng Nghymru yn cael eu hadnabod, eu datblygu a'u cefnogi a phwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn.

Meysydd i'w harchwilio:

- Modelau cyflwyno llwybrau a sut mae effaith yn cael ei dangos a'i mesur (fel y'i gwahaniaethir gan arweinyddiaeth y ddarpariaeth (dan arweiniad CRhC, dan arweiniad ChAC, darpariaeth ChAC, dan arweiniad NDSO yng Nghymru / y DU)
- Elfennau allweddol i'r llwyddiannau o fewn y llwybrau gwahaniaethol
- Bylchau sy'n effeithio ar lwyddiannau o fewn y llwybrau gwahaniaethol
- Beth mae Gwledydd eraill (sy'n arwain y byd mewn para-chwaraeon) yn ei wneud a sut mae Cymru'n cymharu.

Tybiaethau:

- Tybir y canlynol:
  - Bydd y darn hwn o waith yn darparu ymgysylltu trylwyr â phob parti yng Nghymru a'r DU sy'n ymwneud â llwyddiannau para-athletwyr, sydd â chysylltiad â hwy, neu sy'n rhanddeiliaid yn y llwyddiannau hynny.
  - Bydd gan yr tendrwr llwyddiannus y canlynol:
    - bydd yn sylfaenol gyfarwydd (neu'r gallu i ddod yn gyfarwydd yn gyflym) â rhaglenni perfformiad para mewn Gwledydd eraill sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n 'arwain y byd' a / neu'n arloesol o ran datblygu perfformiad para.
    - ffafrio fframwaith a fydd yn asesu aeddfedrwydd llwybrau perfformiad para y tu hwnt i ganlyniadau sy'n ymwneud â medalau yn unig.
    - parodrwydd i weithio gydag ymgynghorydd / cwmni ymgynghori arall a allai fod wedi cwblhau'r allbynnau ar gyfer Adran 1 (os na fu'r

tendrwr ar gyfer adran 2 yn llwyddiannus wrth dendro am Adran 1, neu os dewisodd beidio â chyflwyno tendr), ac a allai fod yn llwyddiannus wrth dendro am Adran 3 (os nad yw'n llwyddiannus wrth dendro am Adran 3, neu os dewisodd beidio â chyflwyno tendr ar gyfer y gwaith hwnnw).

Adran 3 – cost dyfarniad £20,000
Gwneud argymhellion sy'n rhagweld trywydd gofynion o ran adnoddau dros y 12 i 16 mlynedd nesaf a bydd yn parhau i sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru yn cynhyrchu athletwyr perfformiad para o safon byd.

Meysydd i'w harchwilio:

- Nodi'r amodau gorau posibl sydd eu hangen o fewn y sector i gyflawni ymreolaeth CRhC o ddarpariaeth gynhwysol ar gyfer para-athletwyr o fewn y llwybr perfformiad a beth ddylai'r amserlenni arfaethedig fod ar gyfer cyflawni hyn. Amlinellu beth sydd ar goll a beth sydd angen ei fireinio neu barhau i gyflawni'r amodau gorau posibl hyn yn ystod yr amserlenni arfaethedig.
- Mapio'r gofynion hanfodol o ran adnoddau dros yr amserlen hon i roi Cymru yn y sefyllfa gryfaf i barhau i gefnogi cynhyrchu para-athletwyr o safon byd.
- Creu Crynodeb Gweithredol sy'n briodol ar gyfer rhanddeiliaid allweddol a chyllidwyr posibl mewn perthynas â'r newidiadau / parhad a'r amserlenni.

Tybiaethau:

- Tybir y canlynol:
  - Bydd y darn hwn o waith hwn yn cysylltu â grŵp cynghori, lle gellir mireinio a chadarnhau argymhellion drwy broses ymgynghori. Bydd strwythur y grŵp cynghori hwn yn ôl disgresiwn y tendrwr llwyddiannus.
  - Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y canlynol:
    - cysylltiadau da â rhanddeiliaid allweddol ym maes chwaraeon perfformiad para yng Nghymru, y DU ac yn ehangach.
    - dealltwriaeth gadarn o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer chwaraeon perfformiad i para yng Nghymru.
    - parodrwydd i bontio'r allbynnau o Adran 2 (ac Adran 1, lle bo hynny'n berthnasol) gan ymgynghorydd / cwmni ymgynghori arall (os nad oedd y tendrwr yr un fath ar gyfer Adran 1 a / neu Adran 2).

14.5 Tymor y contract arfaethedig yw cyfanswm o 18 mis ar gyfer cwblhau'r gwaith yn llawn.

14.6 Y gwerth a amcangyfrifir ar gyfer cyfanswm y contract yw (hyd at) £50,000 (heb gynnwys TAW) dros y tymor posibl llawn.

14.7 Bydd amledd a cherrig milltir penodol y gwaith yn cael eu penderfynu rhwng Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru a'r tendrwr llwyddiannus.

Safonau

14.8 Rhaid i gyflwyniadau ar gyfer y tendr gynnwys y canlynol:

• Methodoleg fanwl yn amlinellu sut bydd y gwaith yn cael ei gyflawni a pha adrannau rydych chi'n dymuno gwneud cais amdanynt.
• Polisi neu Bolisïau Tegwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a / neu Gynhwysiant eich cwmni.
• Amserlen gyda cherrig milltir allweddol.
• Dadansoddiad o'r costau
• Profiad a chymwysterau perthnasol tîm y prosiect.
• Enghreifftiau amrywiol a gwahanol ar gyfer pob cwestiwn asesu o waith blaenorol mewn datblygu chwaraeon cynhwysol neu gynllunio strategol.
• Dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu data.

14.9 Mae'n ofynnol i'r cyflenwr llwyddiannus gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) yn ei ymwneud â Chwaraeon Cymru.

Cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru

14.10 Bydd y tendrw(y)r llwyddiannus yn gweithio gyda thîm prosiect uwch o Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru. Cytunir ar amserlenni cytunedig ar gyfer cyfarfodydd a chefnogaeth ar ddechrau'r gwaith.

14.11 Bydd gofynion y gwaith (gan gynnwys mynediad at ddata, gwybodaeth a chysylltiadau'r sector chwaraeon) yn cael eu cefnogi gan Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru fel y bo'n briodol ac yn gymesur â'r prosiect. Trafodir hyn ar ddechrau'r gwaith.

Cadw Cofnodion ac Adrodd

14.12 Mae angen rheoli data yn briodol, yn unol â GDPR / Deddf Diogelu Data, ar gyfer y gwaith hwn.

Llywodraethu

14.13 Bydd Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn penodi rheolwr contract i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhwng y sefydliad a'r cyflenwr llwyddiannus. Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus hefyd benodi rheolwr contract pwrpasol i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhwng ei sefydliad a Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru. Dylid dwyn unrhyw / pob mater gwasanaeth, risg ac ati i sylw'r rheolwr(wyr) contract yn y lle cyntaf.

Hyd y Contract

14.14 Os caiff ei ddyfarnu, disgwylir i'r contract ddechrau ar 04/05/26.

14.15 Ac eithrio terfynu cynnar, bydd y contract a'r gwaith wedi'u cwblhau ac yn dod i ben ar ôl 18 mis.

15 Y Broses Asesu

Trosolwg o Broses Asesu'r Gwahoddiad i Dendro

15.1 Mae'r Broses Asesu'n cynnwys dwy ran fel y manylir isod:

1. Meini Prawf Dyfarnu Ansawdd (sgorio mewn dogfennaeth ysgrifenedig gan ddefnyddio'r cyfweliad ar gyfer eglurhad os oes angen). Caiff pob adran o waith ei sgorio ar wahân gan ddefnyddio'r matrics sgorio isod. Amlinellwch yn eich cais ar gyfer pa adran rydych chi'n gwneud cais, ac i ba adran mae eich tystiolaeth yn berthnasol.
   Rhaid i dendrwyr sy'n gwneud cais am sawl adran ddarparu ymateb ar wahân i C1-C8 ar gyfer pob adran y gwneir cais amdani. Caiff pob adran ei gwerthuso'n annibynnol, a rhoddir sgôr Ansawdd a sgôr Masnachol ar wahân iddi. Gall tendrwr gael ei ddewis ar gyfer un, dwy neu bob un o'r tair adran.
2. Meini Prawf Dyfarnu Masnachol (sgorio o ddogfennaeth ysgrifenedig).

15.2 Mae'n ofynnol i dendrwyr ymateb i bob rhan yn llawn er mwyn i'w cyflwyniad gael ei ystyried fel un sy'n cydymffurfio ac yn gymwys i'w gynnwys yn y broses werthuso derfynol.

15.3 Gall tendrwyr ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir fel rhan o'r pecyn tendr. Bydd fformatau eraill o ymateb yn cael eu hystyried hefyd – rhaid i'r rhain fanylu ar yr holl wybodaeth berthnasol a glynu wrth baramedrau hyd yr ymateb a fynegwyd.

Asesiad Ansawdd a Masnachol

15.4 Bydd y cytundeb (os caiff ei ddyfarnu) yn mynd i'r tendrwr sy'n cyflwyno'r Tendr Mwyaf Manteisiol (MAT), wedi'i asesu o ran gwerth am arian yn seiliedig ar y meini prawf dyfarnu y manylir arnynt isod.

Cwestiwn	**Pwysoli**
Ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad)	70%
Masnachol (Prisio a Ffioedd)	30%
Sgôr Ansawdd Cyfanswm Sydd Ar Gael:	**100%**

15.5 Mae gan Feini Prawf Dyfarnu y Gwahoddiad i Dendro sgôr uchafswm o 100%.

Asesiad Ansawdd

15.6 Mae'r asesiad Ansawdd yn cario [70%] o'r 100% sydd ar gael. Bydd yr ymatebion Ansawdd yn cael eu hasesu gan banel gwerthuso yn erbyn y matrics a nodir isod:

Gwerth y Sgôr	**Disgrifiad o'r Sgôr**
Sgôr o 0 lle mae	Dim ymateb neu ymateb nad yw'n berthnasol i'r cwestiwn neu'r cwestiwn heb ei ateb.
Sgôr o 1 lle mae	Ymateb Gwael - Mae'r ateb wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn rhannol ond mae diffyg tystiolaeth o'r gofynion a geisir. Diffyg

	dealltwriaeth wirioneddol o'r gofyniad neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni.
Sgôr o 2 lle mae	Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ond yn darparu manylion cyfyngedig neu dystiolaeth wan. Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofyniad, ond dim ond rhannol yw'r hyder yn y gallu i gyflawni'n llawn. Mae'r ymateb yn well na gwael ond nid yw'n bodloni safon dderbyniol.
Sgôr o 3 lle mae	Ymateb Derbyniol - Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu tystiolaeth y gofynnwyd amdani.
Sgôr o 4 lle mae	Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth berthnasol a digonol i gefnogi'r ateb. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad ac, o bosibl, rhagori arno mewn rhai meysydd, er nad i'r lefel gynhwysfawr neu eithriadol sy'n ofynnol ar gyfer sgôr o 5.
Sgôr o 5 lle mae	Ymateb Rhagorol – Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad neu ragori arno.

15.7 Bydd sgôr pob cwestiwn yn cael ei luosi gyda'r pwysau cyfatebol i ddarparu sgôr wedi'i phwysoli. Wedyn bydd y sgôr wedi'i phwysoli fel cyfanswm yn cael ei rhannu gyda'r sgôr ansawdd gyffredinol.

Asesiad Masnachol

15.8 Mae'r asesiad Masnachol yn cyfrif am yr 30% sy'n weddill o'r 100% sydd ar gael.

15.9 Ar gyfer yr asesiad Masnachol - gall tendrwyr gwblhau templed ymateb Masnachol. Darperir y templed ymateb Masnachol fel atodiad ategol. Bydd fformatau eraill o ymateb yn cael eu hystyried hefyd – rhaid i'r rhain fanylu ar yr holl wybodaeth berthnasol a glynu wrth baramedrau hyd yr ymateb a fynegwyd.

Meini Prawf Dyfarnu – i'w gweithredu gyda phob adran o'r gwaith

Cyfeirnod y Cwestiwn	Testun y Cwestiwn	Sgôr y Cwestiwn	Pwysau'r Cwestiwn
Meini Prawf Ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad) Quality			
[C1]	Disgrifiwch eich cefndir a'ch gwybodaeth sy'n berthnasol i'r pecyn gwaith a ddisgrifir yn y tendr, gan gynnwys sgiliau a phrofiad arbenigol.	5	**2**
[C2]	Disgrifiwch eich Profiad o gefnogi sefydliadau i ddeall heriau, cyfleoedd ac argymhellion ar gyfer para-chwaraeon perfformiad.	**5**	**2**
[C3]		**5**	**2**

	Disgrifiwch eich Profiad o gefnogi sefydliadau i ddatblygu system chwaraeon gynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl, yn ogystal â chreu cyfleoedd sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol.		
[C4]	Disgrifiwch eich Profiad o ran dylunio a gweithredu strategaethau sy'n ystyried data tueddiadau byd-eang a thueddiadau'r dyfodol o fewn chwaraeon.	**5**	**2**
[C5]	Disgrifiwch eich Profiad o gefnogi sefydliadau i alluogi newid systemau cynhwysol, ar raddfa gyfan a'r gwerth ychwanegol y mae hynny'n ei ychwanegu at y gwaith hwn.	**5**	**2**
[C6]	Disgrifiwch eich Profiad o gyfrannu at gynllunio strategol, datblygu adnoddau, hwyluso a chydweithredu i sbarduno effaith gynaliadwy.	**5**	**2**
[C7]	Disgrifiwch eich Profiad o hwyluso cyfnewid dysgu, gwybodaeth ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws sefydliadau chwaraeon, a / neu bartneriaid cymunedol yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r gwerth ychwanegol y mae'r profiad hwnnw'n ei gyfrannu at y gwaith hwn.	**5**	**1**
[C8]	Disgrifiwch eich gwybodaeth am bara-chwaraeon a'ch gwybodaeth am system chwaraeon Cymru.	**5**	**1**
Meini Prawf Masnachol (Prisio a Ffioedd)			
Rhowch gyfanswm cost cynnig eich sefydliad ar gyfer darparu'r gwasanaeth gofynnol, yn seiliedig ar gontract 18 mis (uchafswm). Rhowch ddadansoddiad clir o'r holl gostau cysylltiedig, yn unol â gofynion Chwaraeon Cymru fel y nodir yn y ddogfen hon.		5	1

Dyfarnu

15.10 Bydd cyfanswm y sgôr Ansawdd a chyfanswm y sgôr Masnachol yn cael eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr y tendr. Ystyrir mai'r tendr cydymffurfiol sydd â'r sgôr uchaf fydd y MAT.

16 Cyfarwyddyd Pellach

16.1 Rhaid i dendrwyr archwilio'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro, yn ogystal ag unrhyw ddogfennaeth
ategol, yn llawn gan fod y rhain yn dynodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu er mwyn i'w hymateb gael ei ystyried yn gyflawn ac yn cydymffurfio. Gellir gwrthod tendrau anghyflawn neu anghymwys fel rhai nad ydynt yn cydymffurfio, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru.

16.2 Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi cael eu cynllunio i sicrhau bod pob cynnig yn cael ystyriaeth gyfartal
a theg. Felly, mae'n bwysig bod tendrwyr yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani.

16.3 Rhaid i'r tendrwr sicrhau bod pob is-gontractwr, aelod o'r consortiwm a chynghorydd yn cadw at
delerau'r cyfarwyddiadau hyn ac amodau'r tendr.

16.4 Cyfrifoldeb y tendrwr yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei chyflwyno a'i bod
yn gywir, ac, os oes amheuaeth ynghylch cynnwys y Gwahoddiad i Dendro a / neu'r ddogfennaeth ategol, gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen drwy gwestiynau eglurhad ffurfiol.

16.5 Rhaid i dendrwyr sicrhau eu bod yn darllen pob cwestiwn yn ofalus ac yn ymateb yn unol â'r meini
prawf isod:

- Lle gofynnir yn benodol am wybodaeth ategol (e.e. CV, polisïau, dogfennau proses ac ati) gellir ei darparu fel atodiad i'ch ymateb. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd hyn yn ychwanegol at y cyfyngiad tudalen uchafswm a amlinellir.
- Ni fydd gwybodaeth ategol nad yw Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gofyn amdani'n benodol (e.e. atodiadau) yn cael ei hystyried na'i gwerthuso fel rhan o'r cyflwyniad.
- Oni bai fod Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn gofyn yn uniongyrchol am hynny, ni ddylai'r tendrwyr gynnwys dolenni na llwybrau byr i adnoddau allanol (e.e. gwefannau ac ati). Ni fydd y dolenni hyn yn cael eu hagor ac ni fyddant yn cael eu hystyried na'u gwerthuso fel rhan o'r cyflwyniad.
- Rhaid i dendrwyr amlinellu yn eu hymateb unrhyw feysydd lle nad ydynt yn bodloni gofyniad Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn llawn.
- Rhaid i enw'r ffeil(iau) a gyflwynir gynnwys enw eich sefydliad.
- Ni ddylid darparu unrhyw wybodaeth fasnachol yn yr ymateb Ansawdd.

- Rhaid i dendrwyr ddarparu prisiau fesul eitem ar gyfer yr holl gostau a ragwelir ar gyfer darparu'r gwasanaethau arfaethedig yn unol â'u hymateb.

17 Diffyg Cydymffurfio

17.1 Bydd y cyflwyniadau tendr yn cael eu gwerthuso i ddechrau am gyflawnder a chydymffurfiaeth â'r gofynion ymateb gorfodol. Gall methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ymateb neu ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wneud y cyflwyniad yn annilys yn gyfan gwbl, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru.

17.2 Os oes diffyg cydymffurfio â'r fanyleb yn ystod cyfnod y contract, os caiff ei ddyfarnu, dilynir y weithdrefn ganlynol:

- Hysbysiad o gŵyn a gofyniad i gydymffurfio.
- Hysbysiad o arferion annerbyniol a / neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol â'r fanyleb.
- Mynd yn ôl at amodau'r contract.

18 Sefyllfa Ariannol ac Adnoddau

18.1 Mae Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn dymuno sicrhau bod gan dendrwyr y sefyllfa ariannol a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu rhwymedigaethau drwy gydol cyfnod y trefniant caffael. Gall hyn gynnwys (lle bo hynny'n briodol) ystyried lefel ymrwymiadau gwaith presennol y tendrwr a'r effaith bosibl y byddai dyfarnu contract yn ei chael ar adnoddau.

18.2 Wrth benderfynu a ddylid cyflwyno ymateb i'r tendr, dylai tendrwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r risgiau o ddod yn rhy ddibynnol ar fusnes Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru, neu yn wir busnes unrhyw gwsmer, a'u hystyried. Wrth wneud hynny, dylai tendrwyr ystyried enillion o unrhyw waith arall a wneir ar gyfer Chwaraeon Cymru / Chwaraeon Anabledd Cymru yn ogystal ag enillion posibl o'r cyfle caffael hwn.

19 Rhestr Wirio o Ddogfennau Ymateb i'w Dychwelyd

19.1 Ymatebwch i bob un o'r gofynion a nodir yn Rhan 15 erbyn 31/03/2026 5pm gan ddefnyddio'r templedi ymateb (neu fformat arall) a ddarperir gyda'r Gwahoddiad i Dendro hwn.

19.2 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dogfennau y dylai tendrwyr eu cwblhau a'u dychwelyd:

Teitl y Ddogfen	**Erbyn Pryd**
Ymateb i'r meini prawf dyfarnu Ansawdd Yr enw yw: **Diogelu Chwaraeon Perfformiad yng Nghymru ar gyfer y Dyfodol**	Dydd Mawrth 12fed Ionawr 2027 4pm
Templed ymateb Masnachol wedi'i gwblhau.	Dydd Mawrth 12fed Ionawr 2027 4pm